Glyn Nest BAPTIST HOME

Cylchlythyr
Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf 2016

CARTREF Y BEDYDDWYR GLYN NEST - GOFALU YN EIN CYMUNED

# *Dathlu agoriad ein Gardd Synhwyrau*

I ble aeth y misoedd diwethaf? Mae 2016 fel petai'n gwibio heibio; diolch byth bod Cylchlythyr Glyn Nest yn cofnodi gweithgareddau a digwyddiadau er mwyn eu rhoi ar gof i'r deiliaid, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Wedi ymateb brwd y deiliaid i ymweliad fy oen swci, Gordon â Glyn Nest, trefnwyd taith iddynt ymweld â fferm i gyfarfod ag ambell anifail arall.

Llynedd, buom yn dathlu ein pen-blwydd yn 45 oed, ac eleni cawsom gyfle i ymuno ag eraill i ddathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed. Trefnais barti stryd, a chawsom faneri lliwgar, bwyd bys a bawd a chacen i ddathlu'r achlysur.

Ac wrth gwrs, mae gan Glyn Nest ei ddigwyddiad arbennig ei hun i nodi'r flwyddyn hon, sef agoriad ein Gardd Synhwyrau newydd. Dyma fan lle gall ein deiliaid fwynhau bod allan yn yr awyr iach mewn amgylchfyd diogel a hardd.

Gobeithio y cewch flas ar ddarllen ein cylchlythyr.

Jayne Evans – Rheolwraig

---

## YN Y RHIFYN HWN


Gweithgareddau i'r Deiliaid

Newyddion arall

Taith Diwrnod i'r Ganolfan Ceffylau Gwedd

Gardd Synhwyrau Newydd Glyn Nest

Ac yn olaf...


## Cyfarchion yr Haf oddi wrth Undeb Bedyddwyr Cymru

Parchedig Judith Morris

Dyma'r adeg o'r flwyddyn y gwelir gerddi yn eu gogoniant: os ydych yn ffodus fe gewch gnwd da o bob math o ffrwythau a llysiau, a blodau peraroglus yr haf. Maent wir yn adlewyrchu creadigaeth amrywiol a bendigedig ein Duw.

Yng Nglyn Nest mae diddordeb mawr yn natblygiad yr Ardd Synhwyrau a fydd yn gwella'r cyfleusterau ac yn rhoddi mwynhad i bawb sy'n preswylio, gweithio ac yn ymweld â'r cartref gydol y flwyddyn. Mae cymaint o gynllunio manwl a gwaith caled wrth wraidd y fenter hon ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at yr agoriad swyddogol!

Defnyddiodd yr Arglwydd Dduw erddi yn y Beibl fel lleoliadau i gyfleu sawl gwirionedd. Yng Ngardd Eden darllenwn am y modd y bu i Adda ac Efa osod pellter mawr rhwng dynoliaeth a Duw; paratoi i bontio'r pellter hwnnw a wnaeth Iesu yng Ngardd Gethsemane ac yng Ngardd yr Atgyfodiad, lle y tybiodd Mair mai'r garddwr oedd Iesu, darllenwn sut y gorchfygodd Iesu farwolaeth a chynnig bywyd newydd i bob yr un ohonom. Mewn sawl modd Iesu, wrth gwrs, yw garddwr ein bywydau wrth iddo ein cynorthwyo i dyfu mewn gras a chariad a'n galluogi i chwynnu'r arferion nas dymunir sy'n gallu difetha ac anharddu ein bywydau. Boed i ni gyd dyfu fel y blodau hardd yn ein gerddi!

**Gardd**

...Ni allai wneud yn well na phlannu gardd

Er mwyn i ddyn gael byw ynddi'n hardd,

Ond crafangodd ei falchder am orsedd Duw,

A throi darnau o'r cread yn ddiffaith wyw;

Nid oedd dim amdani ond danfon Crist

I ganol ein daear ddryslyd,

Ac yn yr Ardd bu ei greisis trist,

Ac ar ei phridd ddycnwch Ei benliniau gwyn;

Ond clywais Ei weddïau angerddol chwyslyd

Yn tagu'r hen bryfed a'i chwyn.

Gwenallt

# Gweithgareddau i'r Deiliaid

## Cinio Sglod a Sgod yn Aberaeron



Yr haf hwn, cafodd pob un o'n deiliaid gyfle i fynd ar ambell daith o'r Cartref i fwynhau pryd o fwyd.

Arian a godwyd ar stondin crefftau Nadolig a wnaed â llaw gan y deiliaid a ddefnyddiwyd i ariannu'r ciniawau a'r teithiau hyn – stondin a gefnogwyd mor hael gan deuluoedd a ffrindiau.



Cinio a diwrnod yn siopa yng Nghaerfyrddin a ddenodd rhai o'r deiliaid, a thaith hamddenol ar hyd yr arfordir i Aberaeron i fwynhau pryd ardderchog o sglod a sgod yng ngwesty'r Celtic ger yr harbwr aeth â bryd eraill.

## Ymweld â Fferm

Mae ffermio ac anifeiliaid wedi chwarae rhan flaenllaw ym mywydau llawer o'n deiliaid.

Mae cael cyfle i ymweld â fferm bob amser yn boblogaidd, oherwydd mae'n dwyn atgofion o'r gorffennol ac yn ysgogi'r synhwyrau.

Unwaith eto, estynnwyd croeso cynnes i ni ar fferm Brenda a Derrick a gwerthfawrogai'r deiliaid y cyfle i weld ŵyn y gwanwyn a'r merlod.



## Cerddoriaeth a Chorau

Mae lle pwysig i gerddoriaeth ym mywydau ein deiliaid, a threfnir amserlen y gweithgareddau misol er mwyn cynnig amrywiaeth eang o wahanol fathau o brofiadau ac adloniant cerddorol.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r rhaglen amrywiol wedi cynnwys Huw Chidgey a Mel Crew, Hugh Dent, Fleur Snow, Iestyn Evans a Chantorion All Sorts – yn cyflwyno caneuon o bob rhan o'r Ynysoedd Prydeinig.



Cafwyd dau brynhawn ardderchog yng nghwmni corau a fu'n ymweld â'r Cartref.

Trwy drefniant Mary Evans, (merch Annie) bu Côr y Ffynnon, sef côr cymunedol o Lan-ddew, Aberhonddu yn ein diddanu a threfnodd Ann Lewis (nith Margaret C) bod Côr Crescendo o Gaerfyrddin hefyd yn ymweld â'r cartref.

## Parti Dathlu Pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed

Cynhaliwyd parti gan ddeiliaid Glyn Nest, fel gan eraill ledled y wlad, i ddathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed.

Bu staff nos yn addurno'r ystafell fwyta mewn baneri coch, gwyn a glas i nodi'r achlysur, ac roedd hyn yn ychwanegu at awyrgylch y parti.

Amser cinio, bu'r deiliaid a phob aelod o'r staff oedd ar ddyletswydd yn cydeistedd i fwynhau pryd bawd a bys hynod flasus a baratowyd gan y tîm arlwyo.




Fe wnaeth Kelly, sef aelod talentog iawn o'n staff, goginio ac addurno cacen drawiadol ar ffurf Jac yr Undeb i'w gosod ar ganol y bwrdd. Charlie gafodd yr anrhydedd o dorri'r darn cyntaf, fel cydnabyddiaeth o'i holl waith caled yn gofalu am flodau a photiau gardd Glyn Nest.



## Taith ar hyd yr Arfordir a Hufen Iâ yn Llangrannog



Ar brynhawn hyfryd o Ebrill, wedi teithio ar hyd yr arfordir a thrwy fwynder y wlad yn y gwanwyn fe gyrhaeddom draeth cynnes a heulog Llangrannog.

Cafwyd llond côl o groeso gan staff Caffi Patio, a neilltuwyd bwrdd oedd â golygfa hyfryd dros y môr ar gyfer y deiliaid, cyn iddynt flasu'r cacennau a'r hufen iâ bendigedig.



## Gwesty ac Ystafelloedd Te Flambards



Te mawr prynhawn oedd ar y fwydlen pan ymwelodd rhai o'n deiliaid â Gwesty ac Ystafelloedd Te Flambards yn Llechryd – lle sydd newydd ei agor ac sy'n cael ei redeg gan deulu.

## Addurno Cacennau gyda Marie – (staff gofal)



Mae'r prynhawn a dreulir yn addurno cacennau gyda Marie bob amser yn boblogaidd, a gall y rhan fwyaf o'r deiliaid ymuno yn yr hwyl.

Nid oes prinder staff i roi help llaw ychwanegol i'r rhai sydd angen ychydig mwy o gymorth wrth iddynt addurno a rhoi eisin ar gacennau unigol.



Ac wrth gwrs, cael bwyta'r gacen addurnedig gyda chwpanaid o de sydd wrth fodd calon pawb ar ddiwedd y prynhawn!

## Diwrnod Agored Blynyddol – stondin crefftau llaw a wnaed gan y deiliaid

Mae deiliaid Glyn Nest wedi bod yn brysur yn ystod y misoedd diwethaf yn gwneud crefftau â llaw ar gyfer eu stondin codi arian yn y diwrnod agored blynyddol.



# *Newyddion arall*

## Llongyfarchiadau Sarah a Tom ar eich priodas



Ym mis Gorffennaf priododd Sarah, Uwch Ofalwraig Ddydd yng Nglyn Nest a Tom. Daeth ei chwaer bob cam o Awstralia i ymuno â hi ar yr achlysur hwn. Dymuniadau gorau holl ddeiliaid, staff a rheolwyr Glyn Nest i chi eich dau i'r dyfodol.






## Ebrill

$2^{il}$ – John J

## Mai

$1^{af}$ – Daisy

## Gorffennaf

$12^{fed}$ – Freda
$14^{eg}$ – Lloyd
$30^{ain}$ – Jean

# *Taith Diwrnod i'r Ganolfan Ceffylau*



Ym Mehefin, treuliodd y deiliaid a'u teuluoedd ddiwrnod hyfryd gyda'i gilydd yng Nghanolfan Ceffylau Gwedd Eglwyswrw.

Er mai cymylog a llaith oedd y tywydd, roedd y croeso a gafwyd gan deuluoedd y deiliaid, oedd wedi teithio i Eglwyswrw i'n cyfarfod, yn dwyn gwên i wyneb pawb.



Cafwyd croeso twymgalon hefyd gan Mark a'i deulu o'r Ganolfan Ceffylau Gwedd, a chan nad oedd yno ymwelwyr eraill, rhoddwyd y sylw i gyd i anghenion deiliaid Glyn Nest a'u teuluoedd.





Ymweld â Willa Rose, ceffyl gwedd teirblwydd oed a wnaed yn gyntaf. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mark am hanes y fferm a rôl ceffylau gwaith, tra bo Willa Rose yn cael ei thrin a'i gwisgo'n ysblennydd yn ei phlu hardd, harnais, ei choler a'r rhactal sgleiniog.



Daeth i gwrdd â'r deiliaid ymhen tipyn, ac roedd wrth ei bodd gyda'r holl sylw a gafodd ac wrth gael tynnu ei llun.

Eistedd wedyn i fwynhau cinio gyda'n gilydd cyn mynd i weld yr adar ysglyfaethus.



Yn ffodus, fe wellodd y tywydd, a llwyddom i fynd allan i'r awyr iach. Bu tylluan y fferm yn hedfan o'r naill ddeiliad i'r llall, gan achosi tipyn o hwyl a chynnwrf.



Ymlwybro wedyn, cyn troi am adref, i weld y mamaliaid bach ar y fferm; cwningod, moch cwta a ffuredau – a chyfle i bawb eu dal, pe dymunent!!



Diolch diffuant i'r staff a'r teuluoedd a sicrhaodd bod y daith hon yn un arbennig i'n deiliaid. Bydd yr atgofion melys yn aros yn hir yn y cof.

# *Gardd Synhwyrau Newydd Glyn Nest*



Yn ystod y misoedd diwethaf mawr fu diddordeb y deiliaid wrth wylio datblygiad yr Ardd Synhwyrau newydd yng Nglyn Nest.



Bellach mae ardal anhygyrch nas defnyddiwyd yn aml yn y gorffennol wedi ei thrawsnewid yn ardd liwgar, hardd, caeëdig a diogel lle gall deiliaid fwynhau eistedd.



Tirlunio a gafodd sylw yn gyntaf. Lle gynt roedd seiliau carreg cadarn, bellach arwyneb rwber, lliwgar a diogel a geir. Mae rheilings deniadol a wnaed yn lleol yn amgylchynu'r ardd a gall y deiliaid blannu blodau yn y basgedi crog a welir arnynt.



Mae rhan helaeth o'r ardd yn hygyrch i'r deiliaid o'r naill lolfa a'r llall. Mae'r ardal hon yn cynnig rhyddid iddynt a gall y deiliaid ddewis lle i eistedd gan fod nifer o feinciau gwladaidd yr olwg wedi'u lleoli rhwng y blychau blodau lliwgar.

Wrth blannu'r ardd rhoddwyd ystyriaeth i natur y tymhorau er mwyn sicrhau diddordeb ac amrywiaeth drwy'r flwyddyn. Dewiswyd planhigion o ran eu harogl, eu gwead a'u lliw. O'r naill dymor i'r llall ceir môr o liw yn yr ardd.



Mae pawb wrth eu bodd gyda'r ardd sydd wedi rhoi bywyd newydd i ardal allanol ein Cartref, ac a fydd o fudd i gymaint o'n deiliaid yn awr ac yn y dyfodol.

Meddai Irfon Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli, "Mae ymchwil wedi profi bod Gerddi Synhwyrau yn foddion i ysgogi'r cof a gallant wella'r ymdeimlad o fodlonrwydd, tawelwch a hunan les. Bydd cael yr ardal newydd hon i'w harchwilio a'i mwynhau yn cynnig ymdeimlad pellach o annibyniaeth a phleser i'n deiliaid. Rhoi cyfle i'n deiliaid glywed a phrofi synau, arogleuon a newidiadau tymhorol oedd ein nod cychwynnol wrth ddatblygu'r ardal hon".

# *Ac yn olaf…*

## Parchedig Irfon Roberts

### Cadeirydd Bwrdd Rheoli Glyn Nest

Llongyfarchiadau i Mr Fred Bowes o 'Mows 'N Grows' a'i dîm o weithwyr ar orffen yr ardd synhwyrau yng Nglyn Nest. Mae'n ychwanegiad ardderchog i'r cartref a chaiff deiliaid foddhad mawr o'r ardd hon am flynyddoedd i ddod. Diolch yn arbennig i Mr Barry Williams hefyd (pensaer) am y cynllunio ac am ei gyngor cadarn gydol y broses ddatblygu. Er hynny, nid yr ardd oedd yr unig brosiect ar waith eleni. Penderfynwyd gwneud gwelliannau i system wresogi'r cartref a gosodwyd boeleri newydd a fydd yn rhoi gwres mwy effeithlon.

Rydym yn ddyledus i Mr Martin O'Connor am ei arweiniad ynghylch y gwahanol systemau gwresogi ac am sicrhau bod y gwaith wedi ei gyflawni heb amharu'n ormodol ar rediad y cartref o ddydd i ddydd.

Mae paratoadau eisoes ar y gweill ar gyfer y Diwrnod Agored Blynyddol (Awst 31). Testun balchder a phleser pur yw diolch i eglwysi ac unigolion am eu cefnogaeth gyson. Byddai'n anodd parhau hebddynt. Ymdrech tîm, yn ôl yr arfer fydd y Diwrnod Agored gan y bydd aelodau staff a deiliaid fel ei gilydd yn paratoi ar gyfer y digwyddiad. Edrychwn ymlaen at groesawu ffrindiau a theuluoedd i'r hyn sydd bob amser yn achlysur arbennig – pa beth bynnag fo'r tywydd.

Cofiwn yn dyner yn ein gweddïau am Mrs Nest James, Llandysul, aelod o'r Pwyllgor Tŷ ar farwolaeth annhymig ei merch, Sioned – cerddor dawnus ac arweinydd enwog iawn.

Cofiwn hefyd am y Parchedig Gareth Morris (trysorydd). Dymunwn wellhad buan iddo wedi'r llawdriniaeth a'r driniaeth ddiweddar. Tristwch o'r mwyaf oedd clywed bod ein chwaer gartref, Bryn Llifon, ym Mangor, Gogledd Cymru wedi cau. Yn ddiau roedd yn gartref ardderchog, mawr ei barch ar sail y safon uchel o ofal yno. Dymunwn ddiolch i bawb oedd yn ymwneud â rhannu asedau Bryn Llifon am gofio amdanom yn ystod y broses cau. Roedd yn arwydd pendant o'r berthynas dda oedd rhyngom. Fel arwydd fechan o'n gwerthfawrogiad o'u hymdrechion ardderchog yn ystod pymtheg mlynedd bodolaeth Bryn Llifon, penderfynwyd galw'r ardd synhwyrau yn 'Ardd Bryn Llifon'. Eleni byddwn yn dathlu 46 blynedd bodolaeth Glyn Nest. Gadewch i ni ddyblu'n hymdrechion fel bod Glyn Nest, mewn pedair blynedd, mewn sefyllfa i ddathlu ei ben-blwydd yn 50 oed.

Parchedig Irfon Roberts

## Gofal Seibiant

Rydym yn deall……



Mae Glyn Nest yn cynnig sawl ffordd wahanol i ofalwyr gael seibiant o'u dyletswyddau gofal. Pa un ai am ddiwrnod, wythnos, neu gyfnod byr gall Glyn Nest ddarparu amgylchedd diogel a chymorth 24 awr i aelod o'ch teulu.

Mae gofal seibiant yn rhoi tawelwch meddwl i chi y byddwn yn gofalu am eich anwyliaid, wrth i chi gael seibiant i adnewyddu eich nerth.

Mae gan Glyn Nest ystafell seibiant tymor byr neilltuedig â chyfleusterau en-suite, a gall hefyd gynnig llety am gyfnodau hwy os oes angen.

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â: Jayne Evans i gael ymgynghoriad preifat ynghylch argaeledd a gofynion.

**Cysylltu â Glyn Nest**

Jayne Evans – Rheolwraig Gofrestredig

Ffôn: 01239 710 950

01239 710 503